

## CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Paul Weston

Nos Lun Tachwedd 5ed 2015 am 7.30 y.h.

### Cofnodion

1a) Cafwyd ymweliad i'r cyfarfod gan Dean Cavey Swyddog Cefnogi Cymuned Heddlu Gogledd Cymru. Pwrpas ei ymweliad oedd cyflwyno ei hun.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng.  
2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts a Paul Weston.

3. **Còd Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.

4. **Cofnodion mis Hydref:** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gydag Alun Owen yn eilio.

5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**

5.1. Wal o amgylch y toiledau – y gwaith byth wedi dechrau Y clerc wedi cysylltu a Conwy ond heb gael ymateb.

5.2. Swyddfa Archwilio Cymru – wedi derbyn ateb i'n llythyr ac yn egluro ei bod wedi ymgymryd â phroses dendro lawn wrth ddedol, yn unol â Chyfarwyddbau a Rheoliadau Caffael yr UE gan ystyried amryw feini prawf. Dywedwyd ei bod wedi dyfarnu'r gwaith i'r cyflenwyr a sgoriodd uchaf yn y gwerthusiad o'r tendrau i gyd. Gofynnwyd i'r cyflenwyr ddarparu tystiolaeth o'u profiad a'u gallu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Dywedwyd fod BDO LLP wedi bod yn darparu gwasanaeth cyffelyb mewn rhanbarthau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru dros gyfnod o 12 mlynedd. Penderfynwyd disgwyl ymateb gan Un Llais Cymru ar y mater cyn trafod ymhellach.

5.3. Biniau Sbwriel A5 – nid ydym wedi cael ymateb i'r gwyn hyd yma.

5.4. Lampau stryd – 5 lamp yn yr ardal ddim yn gweithio – y clerc wedi cysylltu ar adran.

6. **Gohebiaeth:**

6.1 **Dŵr Cymru** – y gwaith gwelliannau i bibellau dwr yn ardal Llyn Conwy wedi ei gwblhau'n llwyddiannus.

7. **Un Llais Cymru:**

Cafwyd adroddiad o'r pwyllgor yn Dinbych gan Edmund Rees:-

1. Cyflwyniad gan Rhian Cattell o Gofal a Thrwsio Conwy a Dinbych ar gyfer Pobl Hŷn. Dim grantiau ar gael rŵan ond rhoi cyngor a chymorth ar gyfer addasu ac atgyweirio tai – ynni a gerddi.

2. Cyrsiau hyfforddiant Un Llais Cymru erbyn Mai 2016. Mi fydd yn orfodol i fynychu cyrsiau – rhagweld mwy efo datganoli gwasanaethau a mwy o rôl i'r 3ydd sector.

3. O'r pwyllgor cenedlaethol – angen i bob cyngor gael cyfeiriad e-bost arbennig i waith y Cyngor, dim defnyddio un personol y clerc hefyd cyfrifiadur dim ond at waith y Cyngor. Datgan diddordeb – canllawiau newydd. Newidiadau arfaethedig ffiniau Llywodraeth leol un Cyngorydd ar gyfer bob 4,000 o etholwyr.

4. Archwilydd Cymru – amau nad oedd neb o Gymru wedi tendro am y gwaith.

8. **Cais Cynllunio:**

Cyfeirnod: 0/42153

Ymgeisydd: Mr Gerallt Jones

Safle: Troed y Foel, Pentrefoelas. (tir ar bwys)

Cynllun: Tynnu 1 goeden Onnen

Ni chafwyd gwrthwynebiad na sylwadau i'r Cais.

9. **Cais gan Lyn Davies**

Angen gwybod os oes gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb mewn cael tunnell o halen mewn bagiau 25kg er mwyn iddynt chwalu'r halen lle bo angen. Penderfynwyd peidio cefnogi'r cais gan fod diogelwch yn dod i mewn iddi ond buasai'n well cael mwy o'r biniau melyn o gwmpas yr ardal fel bod y trigolion yn gallu chwalu'r halen ei hunain fel bo yr angen.

10. **Information Commissioners Office:**

Angen gwybodaeth – mae'n ofynnol rhoi copi o'r Gyllideb , Costau Cyngorwyr a.y.b. ar ei gwefan.

11. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Nid oedd y Cyngorydd Sirol yn bresennol.

12. **Unrhyw fater arall:**

12.1. Angen llenwi'r biniau melyn hefo halen.

12.2. Coed yn gwyro i'r ffordd yn groesffordd Aber Pwll.

12.3. Rheol 106 wedi cael ei dynnu oddi ar un safle yn y pentref a rheol tai fforddiadwy ar un arall hyn yn gwneud yn amhosib adeiladu arno oherwydd y gost.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Rhagfyr 7fed 2015 am 7.30 y.h.**

07.12.2015

\*\*\*\*\*

